

SESIWN 1: Casglu data yn Ethiopia

Pwnc: Daearyddiaeth/Mathemateg

Ystod oedran: 11-14 oed

Amser: 1 awr

<p>Amlinelliad Caiff dysgwyr eu cyflwyno i Ethiopia ac archwilio'r heriau o ran casglu data.</p>		
<p>Amcanion Dysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> Datblygu gwybodaeth ddaearyddol sylfaenol am Ethiopia Archwilio'r broses o gasglu data Deall rhai o'r problemau a'r anawsterau o ran casglu data 	<p>Deilliannau dysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd dysgwyr yn defnyddio mapiau, ysgrifennu a lluniau i ddatblygu syniad o sut le yw Ethiopia a dealltwriaeth o weithgareddau ac allbynnau y grwpiau gweithredu cyfunol Bydd dysgwyr yn gallu egluro rhai o'r heriau o ran casglu data drwy ddarllen a thrafod datganiadau 	
<p>Cwestiynau allweddol</p> <ul style="list-style-type: none"> Sut le yw Ethiopia? Sut allech chi gael gwybod mwy am y bobl, lleoedd a gweithgareddau yr ydym yn dysgu amdanynt yn y wers hon? Pa anawsterau y gallai ymchwilwyr ddod ar eu traws wrth gasglu data? 	<p>Adnoddau</p> <ul style="list-style-type: none"> Sioe sleidiau 1 <i>Taflen waith Dysgwr A: Cynhyrchu Mêl yn Ethiopia</i> 	
<p>Cysylltiadau â'r cwricwlwm</p>		
<p>Lloegr Daearyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> Dylid addysgu'r disgyblion i ymestyn eu gwybodaeth leoliadol a dyfnhau eu hymwybyddiaeth ofodol o wledydd y byd gan ddefnyddio mapiau o'r byd i ganolbwyntio ar Affrica Dylid addysgu'r disgyblion i ddeall tebygrwydd, gwahaniaethau a chysylltiadau daearyddol rhwng lleoedd drwy astudio daearyddiaeth ddynol a ffisegol rhanbarth yn Affrica Dylid addysgu'r disgyblion i ddeall daearyddiaeth ddynol yn ymwneud â: poblogaeth a threfoli; datblygiad rhyngwladol; gweithgarwch economaidd yn y sectorau cynradd, eilaidd, trydyddol a chwaternaidd; a'r defnydd o adnoddau naturiol Dylid addysgu'r disgyblion i ddadansoddi a llunio casgliadau o ddata daearyddol, gan ddefnyddio ffynonellau lluosog o wybodaeth cynyddol gymhleth. 	<p>Cymru Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 3 Lleoli lleoedd, amgylcheddau a phatrymau - lleoli lleoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau, mapiau a chynlluniau Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau - disgrifio ac esbonio nodweddion ffisegol a dynol, esbonio achosion ac effeithiau prosesau ffisegol a dynol a sut mae'r prosesau'n cydberthyn</p> <p>Mathemateg Cyfnod Allweddol 3/Fframwaith Rhifedd Defnyddio sgiliau data - casglu a chofnodi data: cynllunio sut i gasglu data i brofi damcaniaethau</p>	<p>Yr Alban Astudiaethau cymdeithasol I ymestyn fy map meddwl ac ymdeimlad o le, gallaf ddehongli gwybodaeth o wahanol fathau o fapiau ac rwy'n dechrau lleoli nodweddion allweddol o fewn yr Alban, y DU, Ewrop neu'r byd ehangach. SOC 2-14a</p> <p>Rhifedd a mathemateg Ar ôl trafod yr amrywiaeth o ffyrdd ac ystod o gyfryngau a ddefnyddir i gyflwyno data, gallaf ddehongli a llunio casgliadau o'r wybodaeth a ddangosir, gan gydnabod y gall y cyflwyniad fod yn gamarweiniol. MNU 2-20a</p>



I ddechrau (10 mun)

Cwestiynu delweddau

Dangoswch i'r dysgwyr ddelweddau o fenywod yn cymryd rhan mewn cynhyrchu mêl ar sleidiau 3, 4 a 5 yn sioe sleidiau 1. Gofynnwch i'r dysgwyr lunio nifer o gwestiynau am y delweddau.

Gallwch arwain dysgwyr trwy ddweud y dylent lunio cwestiwn ar gyfer pob un o'r pum elfen (beth, ble, pryd, pam, pwy) neu drwy ddefnyddio'r Rhosyn Cwmpawd Datblygu (gallwch weld canllaw drwy ddilyn y ddolen hon

<http://www.tidec.org/sites/default/files/uploads/2c.50%20Compass%20rose.pdf>) a llunio cwestiwn ar gyfer pob un o'r pedwar pwynt cwmpawd (economi, cymdeithas, pŵer a'r amgylchedd).

Gellid dangos y delweddau yn y tu blaen gan ddefnyddio'r cyflwyniad neu eu dosbarthu, i fyfyrwyr o bosibl ysgrifennu arnynt neu o'u cwmpas.

Gofynnwch i rai dysgwyr rannu eu cwestiynau. Efallai y bydd yna gwestiynau na allwch eu hateb ar hyn o bryd - y diben yw cael dysgwyr i feddwl. Efallai y byddwch am gofnodi unrhyw gwestiynau anodd a dod yn ôl atynt mewn sesiwn ddiweddarach a/neu ofyn i'r dysgwyr ymchwilio i'r ateb.

Esboniwch i'r dysgwyr fod y menywod yn cynhyrchu mêl yn Ethiopia ac y byddwch yn darganfod mwy am y menywod hyn, y gweithgareddau a'r wlad yn y wers hon (a'r rhai sy'n dilyn).

Dangoswch y lluniau ar sleidiau 6-11 yn y sioe sleidiau, i gyflwyno dysgwyr i Ethiopia a datblygu eu hymdeimlad o le. Mae'r delweddau wedi eu dewis i ddangos darlun ehangach o sut beth yw bywyd yn Ethiopia a chyferbynnu lleoliad gwledig astudiaeth Oxfam. Tynnwch sylw'r dysgwyr at y ffaith nad oes gan bawb yr un ffordd o fyw â'r ffermwyr sy'n fenywod y bydd y dysgwyr yn astudio.

Mae sleidiau 12-19 yn dangos delweddau pellach o gynhyrchu mêl o'r astudiaeth. Gofynnwch i'r dysgwyr beth maen nhw'n feddwl y mae'r delweddau yn ei ddweud wrthynt am gynhyrchu mêl yn y rhan wledig hon o Ethiopia o'r delweddau.

Gweithgaredd 1.1 (20 munud)

Gwybodaeth gefndir

Trefnwch fod y dysgwyr yn gweithio mewn paru. Dylai pob pâr gael copi o daflen waith dysgwyr A: Cynhyrchu Mêl yn Ethiopia. Mae angen i bob dysgwr ddefnyddio'r wybodaeth o'i daflen waith i ysgrifennu paragraff neu gyfres o bwyntiau bwled yn disgrifio'r wlad a'r gweithgaredd.

Rydym yn awgrymu eich bod yn ychwanegu at yr wybodaeth ar y taflenni hyn drwy gael dysgwyr i ddefnyddio atlas neu drwy ddewis peth o'r wybodaeth o wefan CIA World Factbook (Ethiopia <https://www.cia.gov/library/publications/the-world-factbook/geos/et.html>). Gallai dysgwyr gofnodi'r hinsawdd, maint y boblogaeth neu'r cynnyrch mewnwladol crynswth, er enghraifft.

Os ydych am arwain ysgrifennu'r dysgwyr defnyddiwch sleidiau 20 a 21 o sioe sleidiau 1.

Mae dysgwyr yn rhannu a chymharu eu nodiadau gyda'u partner.

Darllenwch drwy'r astudiaethau achos fel dosbarth neu yn unigol. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr ychwanegu at eu hysgrifennu ddau ddarn arall o wybodaeth am fenywod yn Ethiopia a dau ddarn arall o wybodaeth am gynhyrchu mêl.

Gweithgaredd 1.2 (20 munud)

Darganfod rhagor

Gofynnwch i barau dreulio ychydig o funudau yn llunio cwestiynau y gallent ofyn i gael gwybod mwy am y menywod a'r gweithgareddau. Os oes amser, gallai parau rannu eu cwestiynau gyda phâr arall o ddysgwyr. Gallent hefyd benderfynu ar y pump neu ddeg cwestiwn pwysicaf y maent yn credu y byddai'n fwyaf diddorol i geisio dod o hyd i atebion iddynt.

Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am yr heriau posibl o ran casglu data ystyrion pe baent yn ymchwilydd yn darganfod yr atebion i rai o'r cwestiynau hyn eu hunain. Gallai dysgwyr gyfeirio at y data atlas yr edrychwyd arnynt yn y gweithgaredd blaenorol ac ystyried, er enghraifft, sut y gallai cyfraddau llythrennedd a seilwaith effeithio ar y ffordd y caiff data eu casglu. Rhowch ychydig o funudau i'r parau i drafod hyn cyn rhannu syniadau gyda'r dosbarth.

Gall sleid 22 yn sioe sleidiau 1 gael ei defnyddio i ysgogi ymatebion dysgwyr. Ceisiwch drafod rhai o'r pwyntiau canlynol gyda dysgwyr:

- Byddai'n amhosibl casglu data, er enghraifft, ar gyfer pob menyw yn Ethiopia ac felly mae angen gwneud dewisiadau am faint y sampl ac elfennau ymarferol.
- Gall amseru casglu data effeithio ar ganlyniadau, er enghraifft gallai data a gesglir ar un adeg yn ystod y flwyddyn fod yn wahanol iawn i un arall oherwydd gwahanol dymhorau neu amrywiadau yn y farchnad.
- Os yw gwahanol ymchwilydd yn casglu'r data mae angen cael ffordd i safoni sut y gofynnir cwestiynau a sut yr ymateb iddynt.
- Mae'r berthynas rhwng yr ymchwilydd a'r cyfranogwr yn bwysig, yn enwedig os yw gwybodaeth bersonol sensitif yn cael ei chasglu (er enghraifft ynghylch faint o arian sy'n cael ei wneud). Mae angen i'r cyfranogwr ymddiried yn yr ymchwilydd ac mae'n annhebygol o ddatgelu'r wybodaeth hon os yw'n ansicr ynghylch sut y bydd yn cael ei defnyddio yn y dyfodol.
- Rhaid i'r sampl ar gyfer unrhyw gasglu data gael ei dewis yn ofalus iawn er mwyn sicrhau ei bod yn cynrychioli'r grŵp ehangach (heb ei brofi) mor gywir â phosibl.
- Mae ymchwilydd yn anelu at sefydlu asesiadau gwaelodlin a grwpiau rheoli i'w helpu i wirio dilysrwydd eu data. Gallech ofyn i ddysgwyr ystyried pa mor hawdd y maent yn meddwl y byddai dod o hyd i grŵp rheoli.
- Sylwer bod rhagor o wybodaeth yn y nodiadau cefndir am rai o'r heriau penodol o ran casglu data a brofwyd ym mhrosiect Women's Collective Action Oxfam.

Gwahaniaethu

I'w gwneud yn haws:

I wneud y dasg hon yn haws, gallech ddewis cyfres o heriau casglu data cyffredin a'u troi'n ddau senario ymchwil gwahanol. Mae angen i ddysgwyr benderfynu pa un yw'r senario gorau ar gyfer casglu'r data mwyaf cywir a pham. Er enghraifft:

- Siaradodd Ymchwilydd A dim ond â menywod a oedd yn byw yn agos at ganol y pentref, a menywod sy'n siarad yr iaith genedlaethol.
- Siaradodd Ymchwilydd B â menywod mewn tai ymhell o'r pentref hefyd, a dod o hyd i gyfieithydd ar gyfer y dafodiaith leol er mwyn gallu cyfweld hefyd â menywod nad oedd yn siarad yr iaith genedlaethol.

DS: Ffuglen yw'r senarios a'r ymchwilyr hyn, gwnewch yn siŵr bod y dysgwyr yn deall hynny.

Sesiwn Lawn (10 mun)

Cwestiynau Delweddau

Ar ddarn o bapur, mae dysgwyr yn ysgrifennu cwestiwn am rywbeth y maent wedi ei ddysgu yn y wers heddiw - gallai fod yn gwestiwn yn seiliedig ar ffeithiau am Ethiopia, cwestiwn am gynhyrchu mêl neu gwestiwn yn ymwneud â chasglu data. Dylent hefyd ysgrifennu'r ateb i'w cwestiwn. Casglwch y cwestiynau ac atebion a phrofwch wybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'r wers drwy ofyn nifer ohonynt.


Telerau defnydd

Hawlfraint © Think Global ac Oxfam DU

www.think-global.org.uk www.oxfam.org.uk

Gallwch ddefnyddio ffotograffau a gwybodaeth gysylltiedig yn yr adnodd hwn at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Gyda phob defnydd, rhaid i chi roi credyd i'r ffotograffydd a enwir ar gyfer y ddelwedd honno ac Oxfam. Ni chewch ddefnyddio delweddau a gwybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol neu y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn ymwneud â'r dyddiad a'r amser y cynhaliwyd y gwaith prosiect.

Cynhyrchu mêl yn Ethiopia



Cynhyrchu mêl

Dros y degawd diwethaf, mae Ethiopia wedi dod yn un o'r economïau sy'n tyfu gyflymaf yn Affrica, a ffermio sy'n arwain y twf hwn. Mae cadw gwenyn yn ffynhonnell bwysig o swyddi, gan gyflogi hyd at ddwy filiwn o bobl. Yn 2012 Ethiopia oedd cynhyrchydd mêl mwyaf Affrica. Yn fyd-eang, mae galw mawr a chynyddol am fêl, yn ogystal ag am gwyr gwenyn a chynnyrch gwenyn eraill.

Yn Ethiopia, mae cadw gwenyn a chynhyrchu mêl yn draddodiadol wedi bod yn swyddi sydd wedi cael eu gwneud gan ddynion, yn rhannol oherwydd mae cynaeafu mêl o gychod gwenyn traddodiadol yn gofyn am ddringo'r coed lle mae'r cychod yn cael eu cadw, ac nid yw hyn yn gymdeithasol dderbyniol i fenywod. Mae gallu menywod i gynhyrchu a gwerthu mêl hefyd wedi cael ei gwneud yn fwy anodd gan mai ychydig yn unig o fenywod sy'n berchen ar dir ac offer, a thrwy fynediad cyfyngedig menywod i arian a hyfforddiant. Dros y degawd diwethaf, fodd bynnag, mae mwy o fenywod yn rhanbarth Amhara o Ethiopia wedi bod yn ymuno â grwpiau gweithredu cyfunol. Mae menywod wedi elwa o'r grwpiau hyn, nid yn unig oherwydd y gallant gwrdd a gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu mwy o fêl sydd o ansawdd gwell, ond hefyd oherwydd y galw cynyddol byd-eang am gynnyrch mêl a gwenyn. Mae'r grwpiau hyn hefyd wedi gallu defnyddio cychod modern sy'n gymharol rad. Mae cychod modern yn flychau y gellir eu cadw ar y ddaear, felly nid oes angen i fenywod ddringo coed.

Menywod yn Ethiopia

Yn Ethiopia, mae menywod yn chwarae rhan weithredol mewn ffermio teuluol, lle mae teuluoedd yn rheoli fferm fechan i gynhyrchu'r hyn sydd ei angen arnynt i fwyta ac efallai rhagor o gnydau i'w gwerthu yn y farchnad. Yn ôl Banc y Byd, mae 21% o'r holl aelwydydd yn Ethiopia yn cael eu 'rhedeg' gan fenywod (lle mae menyw yn rheoli y rhan fwyaf o'r arian a'r penderfyniadau).

Mewn pentrefi gwledig, yn aml nid oes trydan neu ddŵr piblinell. Cyfrifoldeb menywod yw hi yn aml i gario dŵr o ffynhonnau, casglu pren tanwydd a malu grawn â llaw. Gall y tasgau anodd hyn yn ogystal â chyfrifoldebau am blant adael menywod heb lawer o amser neu gyfle i wneud arian. Fodd bynnag, mae mêl yn gynnyrch sy'n gofyn am lai o amser llafur a thir o'i gymharu â thyfu llysiau neu fagu ieir, er enghraifft. Felly, gall menywod sydd ag ychydig yn unig o amser a mynediad at dir ddal i gynhyrchu mêl. Mae cychod gwenyn modern a newidiadau eraill o ran cynhyrchu mêl wedi golygu bod llawer mwy o fenywod yn Amhara yn gallu gwneud arian o'r busnes mêl. Mae'r rhai sy'n ymwneud â grwpiau gweithredu cyfunol hefyd yn cael manteision fel gwell mynediad at offer a benthyciadau arian, a mwy o bobl i werthu eu cynnyrch iddynt, a hynny am bris uwch.

Astudiaeth achos o Shashie

Mae Shashie, sydd yn ei thriedegau hwyr, yn briod a chanddi ddwy ferch. Mae ei gŵr yn filwr ac nid yw'n byw gyda hi y rhan fwyaf o'r amser. Astudiodd hyd at Flwyddyn 11 ond yna gadawodd yr ysgol i briodi. Mae Shashie yn llwyr gyfrifol am ei theulu gan nad yw ei gŵr yn anfon unrhyw arian adref.



Yn 2008 cafodd Shashie ei hannog gan elusen leol, SOS-Sahel, i ddechrau cadw gwenyn a rhoddwyd cwch gwenyn modern iddi, ond am beth amser roedd hi'n dal i fod yn ddibynol ar gefnogaeth yr elusen

gan nad oedd ganddi ddigon o sgiliau a gwybodaeth i ddelio â'r gwenyn.



Shashie gyda'i chychod gwenyn. Mae'r cychod modern hyn wedi galluogi mwy o fenywod i gymryd rhan mewn cynhyrchu mêl. Mae casglu mêl o gychod gwenyn traddodiadol yn gofyn am ddringo coed, ac nid yw hyn yn gymdeithasol dderbyniol i fenywod. Gall cychod modern gael eu cadw ar y ddaear, ger y cartref, ac maent yn gymharol rad. Maent hefyd yn cynhyrchu mwy o fêl sydd o ansawdd gwell na chychod gwenyn traddodiadol.

Dewisodd Oxfam hi i gael hyfforddiant a dewisodd Shashie 19 o fenywod o'i phentref a'u trefnu nhw yn grŵp gweithredu cyfunol i helpu'r aelodau wella eu gwaith cynhyrchu mêl. Penododd y menywod Shashie fel eu harweinydd am chwe mis.



Yn ogystal â'r hyfforddiant, derbyniodd Shashie gwch gwenyn modern arall ac ychydig o arian i brynu nythfeydd gwenyn gan Oxfam. Gwellodd Shashie ei sgiliau a'i hyder, a defnyddiodd ei henillion cyntaf i brynu tri chwch gwenyn arall. Erbyn heddiw, nid oes angen cefnogaeth unrhyw un ar Shashie gyda'i gweithgareddau cadw gwenyn, a gall hi benderfynu sut i wario ei harian.

Yn y cyfamser, ymunodd Shashie a holl aelodau ei grŵp gweithredu cyfunol â menter gydweithredol, i helpu i *farchnata* eu mêl (dod o hyd i ragor o bobl i werthu iddynt, a hynny am bris uwch). Cafodd ei hethol yn fuan i swydd uwch yn y fenter gydweithredol. Roedd yn anarferol i fenyw ddal y math hwn o swydd. Fodd bynnag, perfformiodd Shashie lawer yn well na llawer o'r dynion yn y grŵp! Cafodd ei gweld fel gweithiwr

ymroddgar a chaled, gyda syniadau da, yn gwneud penderfyniadau, llunio adroddiadau a chyflwyno'r adroddiadau i gynulliad cyffredinol y fenter gydweithredol.

Mae Shashie bellach wedi meistroli gweithgareddau cadw gwenyn ac yn gwneud incwm da ohono. Gall hi bellach fforddio anfon ei phlant i'r ysgol. Ar ben hynny, mae Shashie yn ddigon hyderus i arwain cyfarfodydd gyda chynifer â 500 o bobl ac mae ganddi fwy o gysylltiadau â'r byd ehangach, gan ei gwneud yn llai agored i rwystrau annisgwyl, fel methu â dod o hyd i brynwr ar gyfer ei mêl.